Atodiad 1
Cyhoeddiadau, Cyflwyniadau a Darlithoedd

- **Adroddiadau a thaflenni a gyhoeddwyd gan yr Arolygiaeth yn ystod 2001**
- **Cyflwyniadau a darlithoedd gan Arolygwyr**
- **Llythyron gwybodaeth a anfonwyd i gwmnïau dŵr yn ystod 2001**

Teitl yr Adroddiad	Cyfeirnod	Cyhoeddwyd
Dŵr Yfed 2000 – Adroddiad gan Brif Arolygydd, Arolygiaeth Dŵr Yfed	ISBN 0-11 753600 -8	Gorffennaf 2001
Dŵr Yfed i Gymru – Adroddiad blynyddol 2000 yn Saesneg ac yn y Gymraeg	ISBN 0-11-753606-7	Gorffennaf 2001
Cryptosporidium Rheoliadol – 11 mis yn ddiweddarach. Cyhoeddwyd ar y cyd gyda RSC	D/B	Mawrth 2001
Monitro parhaus am *Cryptosporidium* – dull gwreiddiol o edrych ar iechyd y cyhoedd. 'Asian Waterqual 2001'	D/B	Medi 2001
Rheoliadau Dŵr Yfed ar gyfer *Cryptosporidium* yng Nghymru a Lloegr	D/B	Hydref 2001
Teitl y daflen	**Cyfeirnod**	**Cyhoeddwyd**
Tap Water: Where does it come from and how is it made safe to drink?	D/B	Gorffennaf 2001
Using lead-free solder for drinking water fittings – How to avoid health risks from lead solder and flux contamination of water	D/P	Gorffennaf 2001
Fersiynau Cymraeg o daflenni'r Arolygiaeth		
Dŵr Tap – O ble mae'n dod a sut y caiff ei wneud yn ddiogel i'w yfed?	D/B	Gorfennaf 2001
Defnyddio sodr di-blwm ar gyfer ffitiadau dŵr yfed: Sut i osgoi peryglon i iechyd o lygredd dŵr oherwydd sodr plwm	D/B	Gorfennaf 2001

Cyflwyniadau a Darlithoedd

❑ Fe draddododd staff yr Arolygiaeth ddarlithoedd neu gyflwyno papurau ar 45 achlysur i gymdeithasau, cyrff cyhoeddus a sefydliadau hyfforddi.

Llythyrau Gwybodaeth 2001

❑ Cyhoeddodd yr Arolygiaeth 15 Llythyr Gwybodaeth i bob un o'r cwmnïau dŵr yn cynnig cyngor, arweiniad neu wybodaeth. Mae rhestr gyflawn o'r llythyron gwybodaeth i'w gweld ar wefan yr Arolygiaeth.

Llythyrau Rheoliad 25

❑ O bryd i'w gilydd mae'r Arolygiaeth hefyd yn cyhoeddi llythyron ar ran y Pwyllgor ar Gynnyrch a Phrosesau ar gyfer defnydd yng Nghyflenwad Dŵr y Cyhoedd (CPP) mewn cysylltiad â Rheoliad 25 a'r defnydd a'r cyflwyniad o sylweddau a chynnyrch mewn cysylltiad â dŵr yfed. Cyhoeddodd yr Arolygiaeth saith o'r llythyron hyn yn ystod 2001.

Atodiad 2
Staffio

- **Isod gwelir rhestr o staff yr Arolygiaeth. Mae'r Arolygiaeth hefyd yn defnyddio ymgynghorwyr yn y broses o archwilio technegol.**

Rhestr o Staff yr Arolygiaeth ar 31 Rhagfyr 2001

Prif Arolygydd	Michael Rouse CBE
Dirprwy Brif Arolygydd	Claire Jackson
Arolygydd Goruchwyliaethol	Anthony Lloyd
Uwch Arolygwyr	David Drury John Gray Milo Purcell Mike Waite Peter White Malcolm Morgan
Arolygwyr	Anthony Hallas Peter Halton Peter Jiggins Ceris Malhotra Peter Marsden Robin Millar Kevin White
Arolygwyr Cynorthwyol	Joy Emonfomwan Sarah Morris
Cefnogaeth Gweinyddol ac Ysgrifenyddol	Selina Ahmed Popo Anuge Francisco Arrojo Richard Brewin Suzanne Carmels Catherine Harris Nirmal Jheeta Mark Kozlowski Anhar Miah Elsa Redman
Cefnogaeth Technoleg Gwybodaeth	Mitesh Raikundalia Daniel Barwick Phillip Higgens Andrew Taylor
Ysgrifenyddiaeth Technegol CCM	Toks Ogunbiyi Judith Bibaud
Gwybodaeth a'r Wasg	Joan Stephenson
Ymgynghorwyr	Colin Evins Claire Hill Steve Ntifo

Atodiad 3
Diffiniadau a Rhestr Termau

- **Bydd y diffiniadau hyn yn cynorthwyo rhywun i ddeall yr Adroddiad lle bo termau technegol yn cael eu defnyddio.**

µg/l	microgram y litr (un rhan o filiwn o gram y litr)
Adroddiad Bouchier	trydydd (1998) adroddiad y Grŵp o Arbenigwyr ar *Cryptosporidium* yn y Cyflenwad Dŵr
Adroddiadau Badenoch	adroddiadau cyntaf (1990) ac ail (1995) y Grŵp o Arbenigwyr ar *Cryptosporidium* yn y Cyflenwad Dŵr
Ail-leinio gyda Epocsi-resin	proses adfer lle mae darn o brif bibell ddŵr haearn wedi ei glanhau yn cael ei chwistrellu gyda chymysgedd o epocsi-resin a chaledydd er mwyn cynhyrchu haen denau ond cryf o ddeunydd y tu mewn i'r brif bibell
Alcali	toddiad sy'n cynnwys gormodedd o ïonau hydroxyl rhydd, gyda pH mwy na saith
Amser cyflenwi	y foment pan fo'r dŵr yn pasio o bibellau'r cwmni dŵr i bibellau'r defnyddiwr
Anghenion Cyfreithiol	yr anghenion fel y'u nodir yn Neddf Dŵrr 1989, sydd nawr wedi eu hatgyfnerthu yn y Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991, a'r Rheoliadau a wnaed o dan y Deddfau
Anghenion Rheolyddol	gweler 'Anghenion Cyfreithiol'
Archwiliad Technegol	y gallu i wirio bod cwmnïau dŵr yn cydymffurfio gyda'u goblygiadau statudol
Asesiad Cydymffurfiaeth	cymhariaeth a wneir gan yr Arolygiaeth o ddata a gesglir gan gwmnïau dŵr yn erbyn safonau ac anghenion rheolyddol eraill
Asesiad cyn ac wedi adnewyddiad (PPRA)	rhaglen asesu cyn ac wedi adnewyddiad pibellau dŵr i ddangos gwerth y gwaith, a'r gwelliannau a wnaed yn sgîl yr adnewyddiad
Awdurdodau	Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn dibynnu ar ofynion y cyd-destun
Bioffilm	tyfiant naturiol o ficro-organeddau sy'n tyfu tu mewn i bibellau dŵr
Bywleiddiad	â'r gallu i lonyddu pathogenau
Canllawiau Gweithredol a Chôd Ymarfer (OGCP)	'*In situ* Epoxy Resin Lining – Operational Guidelines and Code of Practice. A source document for the Water Mains Rehabilitation Manual'. I C Warren. WRc 1989
Canran cydymffurfiaeth parthol	canran y canlyniadau ar gyfer paramedr arbennig oedd yn cydymffurfio gyda'r PCV – man canol y canran cydymffurfiaeth parthol yw cyfartaledd canran cydymffurfiaeth parthol pob un o barthau cwmni
Carbon egnïoledig gronynnog	dull o hidlo arsugnol a ddefnyddir i waredu olion o gyfansawdd organig o ddŵr
Ceulad	y broses o grynhoi sylweddau gronynnol mân a choloidaidd yn ddeunydd sefydlog
Clefyd 'Crohn's'	enyniad o'r perfeddion

Clorid Sodiwm	cemegyn sy'n cael ei adnabod fel halen cyffredin
Cloroamineiddiad	math arall o ddiheintydd wedi ei seilio ar glorin ac amonia sy'n darparu gweddill sy'n para'n hirach yn y system ddosbarthu na chlorin
Cofnod Cyhoeddus	y wybodaeth a wneir yn hysbys i'r cyhoedd yn ôl gofynion Rheoliadau 29 a 30
Colifformau	grŵp o facteria diniwed fel rheol all fod â tharddiad ysgarthol neu amgylcheddol
Colifformau Ysgarthol	is-grŵp o golifformau, pob un bron o darddiad ysgarthol
Cronfa Wasanaeth	tŵr dŵr, tanc neu gronfa arall a ddefnyddir i storio dŵr wedi ei drin o fewn y system ddosbarthu
Crynhoad penodedig neu werth (PCV)	y gwerth rhifyddol sy'n cael ei roi i safonau ansawdd dŵr i ddiffinio mwyafrif neu lleiafrif crynhoad cyfreithiol neu werth paramedr. Mewn rhai amgylchiadau, gall y PCV gael ei awdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan Rheoliad 4 i'w lliniaru i raddau arbennig – gweler 'Lliniaru'
Cryptosporidium	parasit protosoaidd. Cryptosporidiosis yw'r salwch cysylltiedig
Cyfansawdd	mae cyfansawdd yn cynnwys dau neu fwy o elfennau mewn cyfuniad cemegol
Cyfarwyddyd Dŵr Yfed y CE	cyfarwyddyd Cyngor 80/778/EEC sy'n berthnasol i ansawdd dŵr i'w yfed. (Disodlwyd gan Gyfarwyddyd Cyngor 98/83/EC ym mis Rhagfyr 1998 – y 'Cyfarwyddyd Newydd')
Cyflenwad llwyth	dŵr yn cael ei gyflenwi mewn llwyth, fel arfer wedi ei drin, o un cwmni dŵr i un arall
Cyflenwadau Cyhoeddus	dŵr a gyflenwir gan gwmni sydd wedi ei drwyddedu ar gyfer y pwrpas hwnnw
Cyflenwadau Preifat	dŵr a dynnir o darddiadau preifat neu a gyflenwir gan gyflenwyr heb drwydded; cyflenwadau dŵr a gaiff eu cyflenwi gan unrhywun ar wahân i ymgymerwr dŵr wedi ei apwyntio'n statudol
Daearddŵr	dŵr o ddyfrhaenau neu darddiadau tanddaearol eraill
Diffinio	analysis o baramedr arbennig
Digwyddiad	achlysur sy'n effeithio neu'n bygwth effeithio ansawdd dŵr yfed
Dogfen Arweiniad	'Guidance on Safeguarding the Quality of Public Water Supplies'. HMSO 1989 (ISBN 0 11 752262 7).
Dŵr wedi ei drin	dŵr wedi ei drin ar gyfer ei ddefnyddio'n ddomestig fel y'i diffinir yn y Rheoliadau
Dŵr wyneb	dŵr o afonydd, cronfeydd cronni neu darddiad dŵr wyneb arall
Dyfrhaen	haen tanddaearol sy'n cynnwys dŵr
Egwyddorion Glanweithdra Cyflenwad Dŵr a Nodiadau Arweiniad Technegol	llyfryn sy'n cyflwyno egwyddorion ddylai gael eu hystyried wrth ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer diogelu cyflenwadau dŵr rhag heinitiad ac arweiniad ar ddatblygiad y fath weithdrefnau – cyhoeddwyd gan 'Water UK', Hydref 1998
Epidemioleg	proses o astudio dosbarthiad achosion o afiechyd o fewn poblogaeth mewn cysylltiad â dinoethiad i ffynonellau posib o heintiad, gyda'r bwriad o sefydlu union darddiad yr heintiad.
Esthetig	yn gysylltiedig â'r synhwyrau blas, arogl a golwg
Ffynhonnau	daearddŵr sy'n dod i'r wyneb lle daw haenen athraidd a haenen an-athraidd i gwrdd â'i gilydd

Giardia	parasit protosoaidd
Gor-wneud	cyfystyr â throseddu neu dor-safon (gweler uchod)
Gweithredu adferol	gwaith a wneir i wella sefyllfa
Gweithredu Gorfodol	y ffordd, fel y'i cofnodir yn Neddf Dŵr 1989 a'i atgyfnerthu yn y Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991, y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gofyn i gwmni dŵr gydymffurfio gyda rhai anghenion rheolyddol
Gwerth pH	mesur o'r asidedd neu'r basigedd a gysylltir â'r crynhoad o ïon hydrogen
Hidlad	gwahanu gronynnau mewn daliant o hylif
Hydrocarbonau Polysyclig Aromatig (PAH)	mae presenoldeb rhain yn y dŵr yfed fel arfer yn cael ei gysylltu â phibellau dŵr cyn-1970au a leiniwyd gyda chol-tar i arbed rhydu. Nid yw'r crynoadau sy'n cael eu canfod yn beryglus i iechyd
Hysbysiad o'r bwriad i wneud Gorchymyn Terfynol	rhagflaenydd angenrheidiol i'r mater o Orchymyn Gorfodol sy'n rhaid ei hysbysu o leiaf 28 diwrnod ymlaen llaw er mwyn rhoi cyfle i gynrychioliadau neu wrthwynebiadau gael eu gwneud i'r Gorchymyn arfaethedig
Iachus	cysyniad o ansawdd dŵr a gaiff ei ddiffinio trwy gyfeirio at safonau ac anghenion eraill a osodir yn y Rheoliadau
Lliniaru	lliniaru safonau yn ôl Rheoliadau 4 a 5 – yn ôl, yn y mwyafrif o achosion, cwblhad gwaith gwella – mewn argyfyngau neu o ganlyniad i amodau meteorolegol eithafol neu oherwydd natur a strwythur y ddaear o lle daw'r cyflenwad
m^3/d	medr ciwbig y dydd
Man canol Canran cydymffurfiaeth parthol	gweler canran cydymffurfiaeth parthol
mg/l	miligram y litr (un rhan o fil o gram y litr)
Microbiolegol	cysylltiedig â'r astudiaeth o feicrobau
Ml/d	megalitr y dydd (mae un Ml/d yn hafal i 1,000 m^3/d, neu i 220,000 galwyn/d)
Mycobacterium Avium Complex (MAC)	grŵp o facteria sy'n gyfrifol am heintiadau ysgyfeiniol ac an-ysgyfeiniol
Mycobacterium Paratuberculosis (MAP)	rhywogaeth o'r grŵp *Mycobacterium Avium Complex* (MAC) o organeddau sy'n achosi clefyd 'Johne's' mewn gwartheg
Mynegai Ansawdd Cyffredinol	cyfartaledd man canol cydymffurfiaeth parthol y 15 paramedr allweddol
Mynegai perfformiad gweithredol	cyfartaledd man canol cydymffurfiaeth parthol pob un o'r chwech paramedr sy'n adlewyrchu gweithredu a chynnal gweithfeydd trin a systemau dosbarthu
ng/l	nanogram y litr (un rhan o biliwn o gram y litr)
Ôl-dyfiant	tyfiant o ficro-organeddau o fewn y systemau dosbarthu
Öosyst	ffurf wrthsafol *Cryptosporidium* yn yr amgylchedd, sy'n medru achosi heintiad
Organedd dangosol	organedd sy'n dangos presenoldeb heintiad ac felly presenoldeb posib o bathogenau
Paramedrau	y sylweddau, organeddau a'r nodweddion a restrir yn Atodiad 2 a Rheoliad 3 o'r Rheoliadau. Gellir gweld diffiniadau o'r Paramedrau yn y Cyflwyniad i Ran 1 yr Adroddiad hwn

Paramedrau Allweddol	15 paramedr a ddewisir er mwyn rhoi syniad o ansawdd y dŵr mewn parthau cyflenwi ac i alluogi cymhariaethau i gael eu gwneud rhwng cwmnïau
Parasitau Protosoaidd	organedd un cell sydd ond yn gallu goroesi drwy fyw ar organedd arall
Parth cyflenwi dŵr	ardal gyflenwi a ddiffiniwyd ar gyfer sefydlu samplo, cydymffurfiaeth gyda safonau a gwybodaeth i'w wneud yn hysbys i'r cyhoedd
Pathogen	organedd sy'n medru achosi afiechyd
PCV	gweler 'Crynhoad penodedig neu werth'
Plaladdwyr	unrhyw gynnyrch cysylltiedig â ffyngladdwr, llyswenwyn neu pryfleiddiad (ac eithrio moddion) a ddefnyddir i reoli pla neu afiechyd
Proses Osôn	defnyddio nwy osôn wrth drin dŵr yfed
Pwynt cyflenwi	pwynt arall ar wahân i dap y defnyddiwr lle awdurdodir cymryd samplau ar gyfer cydymffurfiaeth gyda'r Rheoliadau
Rhaglen Cydymffurfiaeth	rhaglen waith sy'n ofynnol fel rhan o ymgymeriad
Rhaglenni Gwelliant	rhaglenni gwelliant, wedi eu cysylltu ag ymgymeriad neu amodau lliniaru Rheoliad 4
Rheoliadau	rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 1989, fel y'u diwygiwyd, a wnaed dan y Ddeddf, neu yn achos cyflenwadau dŵr preifat, Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat 1991
Rheoliadau Newydd	rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2001 (cyfeirir atynt hefyd fel 'Rheoliadau 2001')
Safonau	y crynoadau penodedig neu werthoedd a restrir yn Atodiad 2, Tablau A i E a Rheoliad 3 y Rheoliadau
Steroid	cyfansawdd hydawdd mewn braster organig a gaiff ei ganfod mewn organeddau byw
Systemau dosbarthu	rhwydwaith y cwmni o brif bibellau, pibellau, gorsafoedd pwmpio a chronfeydd gwasanaeth y mae'r dŵr wedi ei drin yn teithio drwyddo er mwyn cyrraedd y defnyddwyr
Tîm Rheoli Achosion (OCT)	mae tîm yn cael ei greu er mwyn ymchwilio achosion posib o cryptosporidiosis sy'n ymwneud â dŵr, sy'n cynnwys aelodau o'r proffesiwn meddygol yn ogystal â chynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol perthnasol a'r cwmnïau dŵr
Tocsicoleg	astudiaeth o effeithiau iechyd sylweddau
Toddiant Plwm	tuedd plwm i doddi mewn dŵr
Trihalomethanau (THMs)	grŵp o gyfansawdd, a ffurfir yn ystod y broses ddiheintio trwy'r adwaith rhwng y clorin a'r sylweddau organig sydd i'w cael yn naturiol mewn dŵr. Mae canfod THM yn arwydd o bresenoldeb posib is-gynhyrchion diheintio eraill
Troseddu	torri angen rheolyddol
WRc	'Water Research Centre (1989) plc' ac/neu, yn ôl y cyd-destun, y corff oedd yn bodoli o'i flaen
Ymgymeriad	rhaglen waith gyfreithiol i gymryd camau addas i sicrhau neu adfer cydymffurfiaeth gyda dyletswyddau rheoliadol; sy'n cael ei roi gan y cwmni dŵr i'r Ysgrifennydd Gwladol at bwrpasau adran 19(1)(b) y Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991